# Trosolwg

## Cyfeiriadau Beiblaidd

**Marc 12:30-31 (BCND)**

'"Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth." Yr ail yw hwn: "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain."'

## Cyflwyniad

Mae argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn gwbl anghyfiawn, gyda'r effeithiau mwyaf trychinebus yn taro'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed, sydd wedi gwneud y lleiaf i achosi'r argyfwng. Gelwir arnom i garu ein cymydog; felly mae gennym gyfrifoldeb atyn nhw a'r mannau lle maen nhw'n byw, ble bynnag y maent, i ddangos cariad at bobl a byd natur trwy ddadlau o blaid byd mwy cyfiawn (Micah 6:8). Er bod llawer y gallwn ni ei wneud gyda'n gilydd fel eglwys, bydd ein heffaith gymaint yn fwy os gweithiwn gydag eraill i gyflawni newid lleol a byd-eang.
Mae'r categori hwn yn yr arolwg yn ymwneud â'r hyn mae eich eglwys yn ei wneud gyda'i gilydd i eiriol a gweithredu. Mae negeseuon yn fwy grymus pan fyddwn yn uno ag eraill i siarad ag un llais. Ble bynnag ydych chi ar eich taith ymgysylltu cymdeithasol a gwleidyddol, mae'r categori hwn yn yr arolwg yn wahoddiad i gymryd y cam nesaf, p'un a yw hynny'n golygu dechrau sgwrs yn eich eglwys, ymuno â digwyddiadau lleol sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, neu ymuno ag ymgyrch dros fyd natur.

## Terminoleg

Er cysondeb, mae'r arolwg yn defnyddio dwy brif ffordd o gyfeirio at gonsyrn a gofal am y Ddaear. Mae cyfeirio at 'y greadigaeth' a 'gofal am y cread' yn amlygu ein rhyngddibyniaeth ar y cartref cyffredin a roddodd Duw i ni, a'n cyfrifoldeb amdano. Mae cyfeirio at argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn arwydd ein bod yn cydnabod bod rhaid gweithredu ar frys. Ar ben hynny, defnyddir y term 'materion amgylcheddol' i gyfeirio at y sbectrwm eang o broblemau rydyn ni'n eu hwynebu'n lleol ac yn fyd-eang

## Ymrwymiad a chysylltiad â'ch Polisi Amgylcheddol

Ar ddechrau pob categori mae'r arolwg Eco-Eglwys yn gofyn i'ch eglwys gydnabod argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a dangos ymrwymiad. Gall weledigaeth neu ddatganiad cenhadaeth fod yn fan gwych i gydnabod ein rôl fel Cristnogion i ofalu am y Ddaear a'i gwarchod. Mae Polisi Amgylcheddol yn ffordd wych i'ch eglwys gyflwyno'r hyn rydych chi'n ei gydnabod ac amlinellu'r ymrwymiadau rydych chi'n eu gwneud.

Edrychwch ar ein taflen wybodaeth gyfatebol ar Greu Polisi Amgylcheddol a chynllun gweithredu Sero Net, a'r polisïau enghreifftiol i'w golygu y gallwch eu haddasu ar gyfer eich eglwys. Cewch hyd i'r dogfennau hyn yn y categori Adeiladau ac Ynni.

Mae cwestiwn cyntaf y categori Ymgysylltu Cymunedol a Byd-eang yn nodi: 'Mae ein heglwys yn cydnabod effaith argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac mae ganddi gynllun neu strategaeth ar gyfer gweithredu'n LLEOL a/neu'n GENEDLAETHOL a/neu'n FYD-EANG.'
Bydd cael strategaeth neu gynllun syml yn helpu'ch eglwys i weithredu yn y maes hwn. Bydd angen i chi feddwl am eich cyd-destun a'ch blaenoriaethau gweithredu ac ymgysylltu. Fel eglwys, fe'ch anogir i gael y sgyrsiau sydd eu hangen er mwyn dod i ddeall materion lleol, cenedlaethol a byd-eang ac ystyried:

- eich ymrwymiad i weithredu dros gyfiawnder i'r hinsawdd ac i fyd natur
- ffyrdd o roi'r ymrwymiad hwn ar waith
- ffyrdd o fesur effaith

## Themâu Ymgysylltu Cymunedol a Byd-eang

Mae'r arolwg hwn yn cwmpasu'r themâu canlynol:

**Thema 1: Cynyddu ymwybyddiaeth – sicrhau cefnogaeth pobl**

Yma, gofynnir sut rydych chi'n cynyddu ymwybyddiaeth, yn sicrhau cefnogaeth pobl ac yn eu hannog i ymwneud â materion amgylcheddol. Sut maen nhw'n adnabod gwahanol linynnau cyfiawnder amgylcheddol lleol, cenedlaethol a byd-eang a'r holl ffyrdd y gallwch gymryd rhan. Mae rhai eglwysi'n rhan bwysig o ymgyrchu lleol ar 'faterion seiliedig ar le', tra bydd eraill efallai yn fwy cyfarwydd â chefnogi ymgyrchoedd cyfiawnder mwy cyffredinol dros y môr gyda sefydliadau cenedlaethol neu ryngwladol. Ar ben hynny, ystyriwch sut rydych chi'n cynyddu ymwybyddiaeth ac â phwy byddwch chi'n cysylltu, gan gynnwys gwleidyddion, a sut rydych chi'n cydweithio â grwpiau lleol eraill. Fel Eco-Eglwysi, deallwn fod yr hyn sy'n digwydd ar lefel leol, ar lefel genedlaethol ac ar lefel fyd-eang i gyd yn llinynnau pwysig wrth i eglwysi godi eu llais a gweithredu'n amlwg mewn gwahanol gylchoedd dylanwad.

**Thema 2: Gweithredu**

- Eiriolaeth, gan gynnwys gweithio gyda chynrychiolwyr etholedig
- Ymgysylltu ag unigolion

Mae gweithredu yn allweddol. Mae cynifer o enghreifftiau o'r mathau o gamau y gallech eu cymryd; mae rhai yn annog eu haelodau i anfon llythyr at aelod seneddol neu i ymuno â thaith natur wedi'i threfnu gan yr eglwys, neu efallai y gallai pobl feddwl am ble mae arian yr eglwys yn cael ei gynilo a'i fuddsoddi.

**Thema 3: Cyfathrebu**
Mae eich dull o gyfathrebu ynghylch eich gwaith yn bwysig – sut byddwch yn gwneud hynny a pha ddulliau a ddefnyddiwch i gysylltu ag eraill, i rannu'r camau a gymerwch ar eich taith gydag Eco Church, ac i ysbrydoli eraill. Bydd hyn yn digwydd yn eich eglwys ac yn ehangach. Mae rhannu storïau yn ffordd allweddol o helpu eraill ar eu taith hefyd.

## Sylwadau ychwanegol

Ar ddiwedd pob categori yn yr arolwg mae cyfle i chi nodi sylwadau ychwanegol. Gallwch ddefnyddio'r lle yma i ymhelaethu ar unrhyw rai o'ch atebion, gan gynnwys lle gwnaethoch chi roi tic wrth 'arall', ac unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â'r categori hwn yn yr arolwg.

## Adnoddau a gwybodaeth

Cewch hyd i'r holl adnoddau Eco Church ar ein gwefan, yn ogystal ag adnoddau sy'n ymwneud yn benodol â'r categori Ymgysylltu Cymunedol a Byd-eang. Rhestrir y rhan fwyaf ohonynt isod yn ôl themâu'r categori hwn.

**Cynyddu Ymwybyddiaeth**
Mudiadau a Mentrau Cynaliadwyedd
Ymgysylltu â'r Gymuned Leol
Ymgyrchoedd Glanhau Cymunedol
Gwaith Cadwraeth Lleol

**Eiriolaeth, gan gynnwys gweithio gyda chynrychiolwyr etholedig**
Ymgyrchu
Cardiau Sgôr Hinsawdd Cynghorau
Cysylltu â'ch AS neu gynrychiolwyr etholedig eraill
Ymwneud â Materion Amgylcheddol Rhyngwladol a'r Newid yn yr Hinsawdd

**Ymgysylltu ag unigolion a chael mynediad i fyd natur**
Mae'r gwaith ymchwil a gyflwynwyd ym mhapur Natural England – y gellir ei lawrlwytho – ynghylch Creu Mannau Gwyrdd a Glas Mwy Hygyrch yn edrych ar y defnydd o fannau gwyrdd a glas gan unigolion â nam ar eu golwg.
Mae adroddiad Natural England People and Nature Survey Analysis: Report of Findings yn amlygu anghydraddoldeb o ran mynediad i fannau gwyrdd a byd natur yn Lloegr – ar gael i'w lawrlwytho.
Cyhoeddwyd adroddiad gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos y rhwystrau mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn eu hwynebu wrth ymweld â mannau awyr agored.

**Cynlluniau achredu**
Canllawiau Masnach Deg ac Achrediadau eraill
Ardystiad B Corp

**Digwyddiadau lleol/cenedlaethol/byd-eang**
Yr Wythnos Werdd Fawr
Awr y Ddaear –Mawrth
Diwrnod y Ddaear – Ebrill

**Bwyd**
Darpariaeth Fwyd Gynaliadwy yn yr Eglwys

**Cyllid**
Mae'r Datganiad Buddsoddiad Gwyrdd yn fenter a ddatblygwyd gan Operation Noah a mudiad JustMoney Movement i gefnogi eglwysi a sefydliadau ffydd eraill ledled y byd i fuddsoddi mwy mewn datrysiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac arwain y ffordd o ran adeiladu dyfodol mwy gwyrdd.
Mae adroddiad The Finance Innovation Lab ar gyllid seiliedig ar ddiben yn rhannu system ariannol sy'n ddemocrataidd, yn gynaliadwy, yn gyfiawn ac yn gydnerth, lle mae diben cymdeithasol a/neu amgylcheddol yn rhan annatod o sefydliadau.
Mae Undebau Credyd yn sefydliadau ariannol egwyddorol, nid-er-elw, sy'n cadw arian yn y gymuned. Drwy wneud hynny gallant hyrwyddo cynhwysiad ariannol heb ariannu tanwydd ffosil na thalu cyfranddalwyr. Gallwch chwilio am undebau credyd yn y DU yma. Mae llywodraeth y DU yn darparu rhestr o Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol (CDFIs) ardystiedig.

**Cyfathrebu**
Hyrwyddo Eco Church i Eglwysi Lleol eraill